ATODLEN 4

Caniatâd adeilad rhestredig

# RHAN 2

## Addasu is-ddeddfwriaeth

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012(**1**) yn gymwys gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Rhaid darllen rheoliad 3 (ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth) fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1)(a) yn lle "i awdurdod cynllunio lleol" rhodder "i Weinidogion Cymru";

(b) ym mharagraff (1)(c)(ii) a (iii) yn lle "fod yr awdurdod cynllunio lleol" rhodder "fod Gweinidogion Cymru";

(c) hepgorer paragraff (3) a Rhan 1 o Atodlen 1;

(d) ym mharagraff (4) yn lle "awdurdod cynllunio lleol yn barnu, wedi iddo anfon y gydnabyddiaeth fel sy'n ofynnol gan baragraff (3), fod y cais yn annilys, rhaid iddo" rhodder "Gweinidogion Cymru yn barnu bod y cais yn annilys, rhaid iddynt";

(e) yn lle paragraff (5) rhodder—

"(5) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cael cais dilys, yr amser a ganiateir iddynt ar gyfer rhoi hysbysiad o'u penderfyniad i'r ceisydd yw'r cyfnod penderfynu fel y'i disgrifir yn adran 62L o'r brif Ddeddf.";

(f) ym mharagraff (6) hepgorer "neu hysbysiad o gyfeirio at Weinidogion Cymru" ac yn lle "awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu rhoi" rhodder "Gweinidogion Cymru yn penderfynu rhoi";

(g) hepgorer paragraff (7).

(3) Rhaid darllen rheoliad 6(1) fel pe rhoddid "unrhyw gais am ganiatâd adeilad rhestredig, pan fo'r penderfyniad ar y caniatâd hwnnw i gael ei wneud gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 62F o'r brif Ddeddf," yn lle "unrhyw gais i awdurdod cynllunio lleol am ganiatâd adeilad rhestredig".

(4) Rhaid darllen rheoliad 7 (tystysgrif sydd i ddod gyda cheisiadau ac apelau) fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1) yn lle "awdurdod cynllunio lleol" rhodder "Weinidogion Cymru" a hepgorer "neu 4";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) hepgorer "neu 4";

(ii) yn lle "yr awdurdod cynllunio lleol" rhodder "Gweinidogion Cymru";

(iii) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) rhaid iddynt benderfynu'r cais cyn diwedd y cyfnod penderfynu y darperir ar ei gyfer yn adran 62L o Ddeddf 1990";"

(iv) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) wrth benderfynu'r cais rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau sy'n ymwneud ag ef a wneir iddynt cyn diwedd y cyfnod sylwadau y darperir ar ei gyfer yn erthygl 4 o Orchymyn Datblygiadau

(**1**) O.S. 2012/793 (Cy. 108).

o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 gan unrhyw berson sy'n bodloni Gweinidogion Cymru fod y person yn berchennog ar yr adeilad neu unrhyw ran ohono;".

(5) Nid yw rheoliadau 8 a 9 yn gymwys.

(6) Rhaid darllen rheoliad 10 (hysbysebu ceisiadau) fel a ganlyn—

(a) hepgorer paragraff (1); a

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"Yr amser a ganiateir i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r ceisydd o'u penderfyniad yw'r cyfnod penderfynu, fel y'i disgrifir yn adran 62L o'r brif Ddeddf".

(7) Hepgorer rheoliadau 11, 12 a 12A.

**3.**—(1) Mae Gorchymyn 2016 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn.

(2) Rhaid darllen erthygl 15 (derbyn ceisiadau) fel pe bai'r cais, yn achos cais am ganiatâd o dan adran 8 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, yn dod gyda'r eitemau hynny a restrir yn rheoliadau 3(1), 3(2) a 6 (datganiadau dylunio a mynediad) o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012.

(3) Rhaid darllen erthygl 18 (cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio: Gweinidogion Cymru) fel pe na bai'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw gais am—

(a) caniatâd adeilad rhestredig i wneud gwaith sy'n effeithio yn unig ar du mewn adeilad a ddosbarthwyd fel adeilad rhestredig Gradd II (di-seren) pan hysbyswyd yr awdurdod cynllunio lleol yn ei gylch ddiwethaf gan Weinidogion Cymru, fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig; neu

(b) amrywio neu ryddhau o amodau a osodwyd ar ganiatâd adeilad rhestredig mewn cysylltiad â thu mewn adeilad rhestredig Gradd II (di-seren) o'r fath.